Home Office

# Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaeth newydd ynghylch cyllyll i fynd i'r afael â'r defnydd o machetes ac eitemau llafnog eraill mewn troseddau.

## Ymgynghoriad y Llywodraeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 18 Ebrill 2023

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gorffen ar 06 Mehefin 2023

# Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae hwn yn ymgynghoriad sydd yn agored i'r cyhoedd ac sydd wedi'i dargedu at bartïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, grwpiau cymunedol, busnesau a sefydliadau sydd â diddordeb uniongyrchol yn y cynigion. |
| **Hyd:** | O 18/Ebrill/2023 i 06/Mehefin/2023 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat amgen) i:** | Uned Trais Difrifol<br>5ed llawr, Fry Building<br>Y Swyddfa Gartref<br>2 Marsham Street<br>Llundain SW1P 4DF<br><br>E-bost: machetes-knives-consultation@homeoffice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Cyflwynwch eich ymateb erbyn 06/Mehefin/2023 drwy -<br>• Cwblhau'r ffurflen ar-lein yn: https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/knife-legislation/<br>• E-bostio i: machetes-knives-consultation@homeoffice.gov.uk |
| **Graddau:** | Rydym yn ceisio safbwyntiau o bob rhan o’r DU. Mae’r cynigion yn ymdrin â materion sydd wedi’u datganoli ac sy’n berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig, ond byddwn yn gweithio’n agos gyda’r gweinyddiaethau datganoledig ar sut y gallai cynigion penodol fod yn berthnasol i’r Alban a Gogledd Iwerddon neu’n effeithio arnynt. Pan fydd cynigion yn ymdrin â materion datganoledig a bod angen deddfwriaeth, cytunir ar hyn gyda’r gweinyddiaethau datganoledig yn unol â’r setliadau datganoli. |
| **Ffyrdd ychwanegol o ymateb:** | Os na allwch ddefnyddio'r system ar-lein, er enghraifft oherwydd eich bod yn defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen ar-lein a'i |

hanfon drwy e-bost neu ei phostio i'r manylion cyswllt uchod.

Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod hefyd os oes angen gwybodaeth arnoch mewn fformat arall, megis “hawdd ei ddarllen”, print bras, Braille, sain neu’r iaith Gymraeg.

Mae'n bosibl na fyddwn yn gallu dadansoddi ymatebion nas cyflwynwyd yn y fformatau hyn a ddarperir.

# Cynnwys


Cynnwys 1

Crynodeb Gweithredol 2

Ffeithiau Allweddol 3

Cynnig 1 - Gwahardd rhai mathau o machetes a chyllyll nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ymarferol i bob golwg ac yr ymddengys iddynt gael eu dylunio i edrych yn fygythiol ac yn addas ar gyfer ymladd. 6

Cynnig 2 - Pŵer i atafaelu a chadw/dinistrio rhai eitemau llafnog a gedwir yn breifat os yw'r heddlu mewn eiddo preifat yn gyfreithlon a bod ganddynt gred resymol y cânt eu defnyddio mewn troseddau difrifol. 11

Cynnig 3 – Cynyddu'r gosb uchaf i 2 flynedd am droseddau mewnforio, gweithgynhyrchu, gwerthu, a chyflenwi cyffredinol arfau gwaharddedig a pheryglus a gwerthu cyllyll i bersonau o dan 18 oed. 13

Mae'r rheswm pam y mae'r llywodraeth yn ystyried cynyddu'r cosbau yn driphlyg: 13

Cynnig 4: A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin meddiant yn gyhoeddus o gyllyll gwaharddedig ac arfau ymosodol yn fwy difrifol. 15

Cynnig 5: Trosedd meddiannu newydd o eitemau llafnog gyda'r bwriad o beryglu bywyd neu achosi ofn trais. 16

Ymgynghoriad – Grwpiau ac Ymatebion 18

Holiadur 18

**Busnes a Masnach** 23

**Amdanoch chi: gwybodaeth yr ymatebydd** 26

Manylion cyswllt a sut i ymateb 27

Cwynion neu sylwadau 27

Copïau ychwanegol 27

Grwpiau cynrychioliadol 28

Cyfrinachedd 28

Atodiad 1. Rhestr arfau ymosodol 28

Atodiad 2. Grwpiau'r ymgynghoriad 31

Egwyddorion yr ymgynghoriad 32

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r llywodraeth yn cymryd camau ar bob lefel i leihau troseddu a gwneud ein strydoedd yn fwy diogel, ond gwyddom fod mwy i'w wneud i ddiogelu'r cyhoedd a rhoi diwedd ar bla trais difrifol.

O'r holl laddiadau a gofnodwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022, y gyfran lle mai cyllell neu offeryn miniog oedd y dull o ladd oedd 39%. Mae miloedd o bobl yn ceisio triniaeth ysbyty ar gyfer clwyfau trywanu bob blwyddyn, gyda rhai troseddau byth yn cael eu riportio i'r heddlu.

Rydym yn ymgynghori ar fesurau deddfwriaethol i roi mwy o offer i'r heddlu i amharu ar feddiant cyllyll a mynd i'r afael â throseddau cyllyll. Rydym wedi nodi rhai mathau o machetes a chyllyll awyr agored mawr nad yw'n ymddangos bod ganddynt ddefnydd ymarferol ac sy'n ymddangos fel pe baent wedi'u cynllunio i edrych yn fygythiol ac sy'n cael eu ffafrio gan y rhai sydd am ddefnyddio'r cyllyll hyn fel arfau. Rydym yn bwriadu eu cynnwys yn y rhestr o arfau ymosodol gwaharddedig a nodir yn yr atodlen i Orchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988. Mae'r arfau a restrir yn yr atodlen hon wedi'u gwahardd o dan a141 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988.Byddai hyn yn golygu y byddai gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu a chyflenwi'r eitemau hyn yn drosedd. Byddai meddiant, yn gyhoeddus ac yn breifat, hefyd yn drosedd, oni bai bod amddiffyniad yn berthnasol.Rydym yn gwahodd sylwadau gan ymatebwyr ar fanylion manylach y disgrifiad o'r eitemau y bwriadwn eu gwahardd.

Rydym hefyd yn ymgynghori ynghylch a ddylid rhoi pwerau ychwanegol i'r heddlu i'w galluogi i atafaelu, cadw a dinistrio eitemau llafnog o unrhyw hyd a gedwir yn breifat, neu a ddylai'r pwerau gael eu cyfyngu i erthyglau o hyd penodol, hyd yn oed os nad yw'r eitemau eu hunain wedi'u gwahardd. Rydym yn ystyried ei fod yn ymateb cymesur i'r heddlu, lle maent, mewn eiddo preifat, yn gallu atafaelu, cadw ac yn y pen draw ddinistrio eitemau llafnog yn gyfreithlon os oes ganddynt reswm da dros gredu y cânt eu defnyddio mewn trosedd. Hoffem brofi'r cynnig hwn gyda rhanddeiliaid ac aelodau eraill o'r cyhoedd fel ein bod yn sicrhau bod y system fwyaf effeithiol ond cymesur yn cael ei rhoi ar waith.

Yn ogystal, rydym yn ymgynghori i weld a oes angen i'r Llywodraeth gryfhau'r cosbau presennol am werthu arfau ymosodol gwaharddedig a gwerthu nwyddau llafnog i bersonau o dan 18 oed, ac a ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin cario cyllyll gwaharddedig ac arfau ymosodol yn gyhoeddus yn fwy difrifol i adlewyrchu difrifoldeb y troseddau yn well.

Yn olaf, rydym yn ymgynghori ynghylch a fyddai'n briodol adlewyrchu deddfwriaeth arfau tanio a chyflwyno trosedd meddiannu ar wahân o gyllyll ac arfau ymosodol gyda'r bwriad o anafu neu achosi ofn trais. Byddai hyn yn golygu uchafswm cosb uwch na'r drosedd bresennol o feddu ar arf ymosodol yn gyhoeddus o dan a1 Deddf Atal Troseddu 1953 (y PCA).

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad 8 wythnos hwn yn llywio ein cynigion ynghylch a oes angen deddfwriaeth yn y dyfodol ac, os felly, ar ba ffurf y bydd hyn.

Mae'r mesurau yn yr ymgynghoriad hwn yn gynigion ar hyn o bryd a gallent gael eu newid yn dilyn y broses ymgynghori. Byddai unrhyw gynigion deddfwriaethol a ystyrir yn angenrheidiol yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig. Er ein bod eisoes wedi ymgysylltu â phartneriaid gweithredol, mae'r ymgynghoriad yn agored i'r cyhoedd ac mae'n ceisio barn partïon, busnesau a sefydliadau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, sydd â diddordeb uniongyrchol yn y cynigion, agrwpiau rhanddeiliaid allweddol a chymunedau yr effeithir arnynt gan effeithiau dinistriol troseddau cyllyll, i sicrhau bod ein datblygiad polisi yn cael ei lywio gan ystod lawn o safbwyntiau.

I grynhoi, rydym yn ceisio barn ar y cynigion a ganlyn:

> Cynnig 1: Cyflwyno gwaharddiad wedi'i dargedu ar fathau penodol o gyllyll mawr yr ymddengys eu bod wedi'u dylunio i edrych yn fygythiol heb unrhyw ddiben ymarferol
>
> Cynnig 2: A ddylid rhoi pwerau ychwanegol i'r heddlu i atafaelu, cadw a dinistrio eitemau llafnog a ddelir yn gyfreithlon o hyd penodol os yw'r heddlu'n dod o hyd i'r rhain yn gyfreithlon pan fyddant mewn eiddo preifat a bod ganddynt sail resymol dros gredu bod yr eitem(au) yn debygol o gael eu defnyddio mewn gweithred droseddol.
>
> Cynnig 3: A oesangen cynyddu'r gosb uchaf am fewnforio, gweithgynhyrchu, gwerthu a chyflenwi arfau ymosodol gwaharddedig (adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 ac a1 Deddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959) a'r drosedd o werthu eitemau llafnog i bersonau o dan 18 (a141A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988) i 2 flynedd, er mwyn adlewyrchu difrifoldeb y troseddau hyn.
>
> Cynnig 4: A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin meddiant yn gyhoeddus o gyllyll gwaharddedig ac arfau ymosodol yn fwy difrifol
>
> Cynnig 5: A oes angen trosedd meddiant ar wahân o eitemau llafnog gyda'r bwriad o anafu neu achosi ofn trais ag uchafswm cosb sy'n uwch na'r drosedd bresennol o feddu ar arf ymosodol o dan a1 PCA 1953.

## Ffeithiau Allweddol

Mae'r ffigurau troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu diweddaraf, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Ionawr 2023 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022, yn dangos bod troseddau a alluogir gan gyllyll[1] a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn yn dod i ben ym mis Medi 2022 wedi aros 8% yn is (50,434 o droseddau) na lefelau pandemig cyn-coronafeirws yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (55,076 o droseddau). Mae hyn yn bennaf oherwydd bod nifer y troseddau lladrata a alluogwyd gan gyllyll (18,253 o droseddau) 25% yn is yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 nag yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (24,314 o droseddau).

[1]Mae'r casgliad hwn yn ymdrin â: lladdiad, ymgais i lofruddio, bygythiadau i ladd, ymosod ag anaf ac ymosod gyda'r bwriad o achosi niwed difrifol, lladrad, treisio, ymosodiad rhywiol.

Gostyngodd lefelau troseddau a alluogwyd gan gyllyll i 45,595 o droseddau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021 oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth ar gyswllt cymdeithasol. Mae wedi cynyddu o 11% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 tra'n parhau i fod yn is na lefelau pandemig cyn-coronafeirws. Roedd cynnydd ar draws yr holl droseddau treisgar a rhywiol a alluogwyd gan gyllyll ac eithrio lladdiad â chyllell, a ostyngodd 5% i 260 o droseddau.

Gellir dadansoddi'r cynnydd diweddaraf (11%) mewn troseddau cyllyll neu offer miniog o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021 fesul Ardal Heddlu (PFA). PFAs Metropolitanaidd, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf yw'r tair ardal sydd â'r nifer uchaf o droseddau a alluogwyd gan gyllyll. O gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021, cynyddodd troseddau cyllyll neu offer miniog a gofnodwyd gan y PFA Metropolitanaidd o 11% i 11,517 o droseddau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022. Gwelodd PFA Gorllewin Canolbarth Lloegr gynnydd o 38% i 5,006 o droseddau, ac arhosodd PFA Manceinion Fwyaf ar lefel debyg gyda 3,447 o droseddau.

Roedd troseddau "meddu ar eitem â llafn neu bwynt" a gofnodwyd gan yr heddlu 15% yn uwch yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 (26,643 o droseddau) na'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (23,246 o droseddau). Roedd hyn yn gynnydd o 17% o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021 (22,853 o droseddau). Gallai hyn fod wedi'i ddylanwadu gan gynnydd mewn camau gweithredu wedi'u targedu gan yr heddlu i fynd i'r afael â throseddau cyllyll.

O'r holl laddiadau a gofnodwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022, cyfran y lladdiadau lle'r oedd cyllell neu offeryn miniog yn ddull lladd oedd 39%. Roedd hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (37%), ond yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021 (42%).

Roedd y data derbyniadau dros dro diweddaraf ar gyfer ysbytai'r GIG yng Nghymru a Lloegr yn dangos gostyngiad parhaus yn nifer y derbyniadau oherwydd ymosodiad gyda gwrthrych miniog yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 (3,856 o dderbyniadau). Roedd hyn 19% yn is na'r flwyddyn bandemig cyn-coronafeirws a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (4,769 o dderbyniadau) a 5% yn is na'r flwyddyn a ddaeth i ben Medi 2021 (4,059 o dderbyniadau).

*Beth mae'r llywodraeth eisoes yn ei wneud i fynd i'r afael â thrais difrifol?*

Er mwyn mynd i'r afael â throseddau cyllyll a thrais difrifol, mae'r llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth eang ei chwmpas ac wedi rhoi rhaglenni helaeth ar waith, wedi'u hategu gan filiynau o bunnoedd mewn cyllid.

Cyflwynodd Deddf Arfau Ymosodol (OWA) 2019 fesurau penodol ar gyfer troseddau cyllyll, yn benodol ei gwneud yn drosedd i feddu ar rai arfau ymosodol yn breifat, ac atal cyllyll rhag cael eu danfon i gyfeiriadau preswyl os yw'r person sy'n eu cael o dan 18 oed.

Cyflwynodd OWA 2019 hefyd Orchmynion Atal Troseddau Cyllyll (KCPOs), y gellir eu gosod ar bobl mor ifanc â 12 oed gyda'r nod o atal carfan fach ond risg uchel o unigolion rhag achosi niwed i eraill drwy osod cyrffyw a chyfyngiadau arnynt, megis fel defnydd unigolyn o gyfryngau cymdeithasol, teithio y tu allan i ffiniau daearyddol penodol, a gwaharddiad penodol rhag cario cyllell. Gall y Gorchmynion hefyd gynnwys ystod o ofynion ymyrraeth gadarnhaol megis rhaglenni adsefydlu ar gyfer cyffuriau, dosbarthiadau rheoli dicter a chyrsiau addysgol.

Mae Gorchmynion Lleihau Trais Difrifol (SVROs) wedi'u cyflwyno drwy Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (PCSC), sy'n rhoi'r pŵer i'r heddlu stopio a chwilio troseddwyr cyllyll ac arfau ymosodol a gafwyd yn euog. Mae'r gorchmynion yn cael eu cyflwyno ar sail cynllun peilot wedi'i dargedu i sicrhau eu bod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl cyn i benderfyniad gael ei wneud ar ei gyflwyno'n genedlaethol.

Mewn ymateb i bryderon bod troseddwyr yn rhy aml yn derbyn dedfrydau o dan yr isafswm cyfnod, rydym hefyd wedi cyflwyno darpariaethau yn Neddf PCSC i sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y llysoedd yn gwyro oddi wrth y ddedfryd leiaf.

Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau bod £130m ar gael y flwyddyn ariannol hon (2022/2023) i fynd i'r afael â thrais difrifol, gan gynnwys llofruddiaeth a throseddau cyllyll. Mae hyn yn cynnwys:

- £64m ar gyfer Unedau Lleihau Trais (VRUs) sy'n dod â phartneriaid lleol ynghyd i fynd i'r afael â'r hyn sy'n ysgogi trais yn eu hardal. Mae VRUs yn darparu ystod o raglenni ymyrraeth gynnar ac atal i ddargyfeirio pobl oddi wrth fywyd o droseddu. Maent wedi cyrraedd dros 215,000 o bobl ifanc agored i niwed yn eu trydedd flwyddyn yn unig.
- Mae ein rhaglen 'Grip' [Gafael] gwerth £30m yn gweithredu yn yr un 20 ardal â'r VRUs ac mae'n helpu i leihau trais drwy ddefnyddio proses sy'n cael ei ysgogi'n helaeth gan ddata i nodi mannau problemus o ran trais – yn aml i lefel strydoedd unigol – a thargedu gweithgarwch gweithredol yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r cyfuniad o'r ddwy raglen hyn wedi atal amcangyfrif o 139,000 o droseddau treisgar yn ystod dwy flynedd gyntaf eu gweithgarwch.

Rydym hefyd yn darparu £200m dros 10 mlynedd i'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid, i adeiladu sylfaen dystiolaeth o amgylch yr hyn sy'n gweithio i atal trais ieuenctid a gwneud hyn yn hygyrch i ymarferwyr.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i annog heddluoedd i gynnal cyfres o wythnosau gweithredu cenedlaethol cydgysylltiedig i fynd i'r afael â throseddau cyllyll o dan Ymgyrch Sceptre. Mae'r ymgyrch yn cynnwys stopio a chwilio wedi'i dargedu, ysgubo am arfau mewn mannau problemus, ildio cyllyll gan gynnwys trwy finiau amnest, pryniadau prawf o gyllyll gan fanwerthwyr, a digwyddiadau addysgol.

Mae mesurau'r Llywodraeth wedi cael effaith gadarnhaol, ond nid ydym yn hunanfodlon ac mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â throseddau cyllyll. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn cyflwyno'r cynigion a ganlyn ar gyfer ymgynghori.

# Cynnig 1 - Gwahardd rhai mathau o machetes a chyllyll nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ymarferol i bob golwg ac yr ymddengys iddynt gael eu dylunio i edrych yn fygythiol ac yn addas ar gyfer ymladd.

Mae rheolaethau llym eisoes ar arfau ymosodol penodol, gan gynnwys rhai mathau o gyllyll, a restrir yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988. Mae'n drosedd gwerthu, gweithgynhyrchu, llogi, benthyca neu roi'r arfau hyn. Mae'r drosedd hon yn ychwanegol at y troseddau cyffredinol o feddu ar gyllell neu arf ymosodol yn gyhoeddus neu ar dir ysgol.  Yng Nghymru a Lloegr, mae ugain o arfau gwahanol wedi'u rhestru fel arfau ymosodol ac maent yn cynnwys eitemau fel y "cyllell bwcl gwregys", "cyllell glöyn byw" a "dagr gwthio".

Mae gwaharddiadau tebyg hefyd mewn perthynas â "chyllyll clec" a "chyllyll disgyrchiant" yn adran 1 o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959.

Ym mis Awst 2016, fe wnaethom ychwanegu "cyllyll sombi" at y rhestr hon gan ein bod yn pryderu nad oedd gan gyllyll o'r fath unrhyw ddefnydd cyfreithlon a'u bod wedi'u cynllunio i edrych yn fygythiol, yn frawychus ac i annog trais. Yn 2019, fe wnaethom ychwanegu "cyllyll seiclon" at y rhestr.

Yn draddodiadol, defnyddiwyd machetes ac offer llafnog mawr eraill fel pladuriau, bilwgau a chyllyll awyr agored mawr fel offer mewn ffermio, garddio, clirio tir a dyfrffyrdd, yn ogystal ag mewn gweithgareddau awyr agored megis byw yn y gwyllt, hela a gwersylla. Fodd bynnag, hoffem ddeall a oes angen machetes a chyllyll awyr agored mawr yn y DU heddiw ac i ba raddau. Nid ydym yn cynnig gwahardd machetes sydd â dibenion amaethyddol cyfreithlon neu ddibenion eraill, ond byddai gennym ddiddordeb mewn clywed barn ymatebwyr ar i ba raddau y mae machetes a chyllyll mawr eraill yn dal i gael defnydd ymarferol yn y DU.

Pryder y llywodraeth yw bod rhai mathau o machetes yn cael eu defnyddio fwyfwy ym meas troseddu, megis cyllyll "ymladd" neu "ffantasi" fel y'u gelwir a "chyllyll a machetes ar ddull sombi" (cyfeiriwn at "gyllyll ar ddull sombi" fel cyllyll sydd yn debyg i "gyllyll sombi" gwaharddedig, ond nad ydynt yn cynnwys delweddau yn yr handlen neu'r llafn a allai ysgogi trais[2]Nid yw'n ymddangos bod gan y mathau penodol hyn o machetes a chyllyll unrhyw ddefnydd cyfreithlon, ymarferol, ond maent yn ymddangos yn ddeniadol i'r rhai sydd am eu defnyddio fel arfau.Rydym, felly, yn bwriadu cynnwys cyllyll o'r fath yn y rhestr o arfau ymosodol gwaharddedig sydd wedi'u gwahardd o dan adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

Rydym eisoes wedi siarad â nifer o fanwerthwyr, dosbarthwyr a chynhyrchwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU er mwyn deall y farchnad, ond mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan ystod ehangach o safbwyntiau, gan gynnwys ffermwyr a'r sector amaethyddol, garddwyr, pobl sy'n frwd dros yr awyr agored, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y maes hwn.

[2]Mae "cyllell sombi", "cyllell lladd sombi" neu "gyllell llofruddio sombi", yn cael ei ddisgrifio fel llafn gyda--

(i) min torri;

(ii) min danheddog; a

(iii) delweddau neu eiriau (boed ar y llafn neu'r handlen) sy'n awgrymu ei fod i'w ddefnyddio at ddiben trais.

Canlyniad ychwanegu “cyllyll a machetes ar ddull sombi” a “cyllyll a machetes ar ddull ymladd a ffantasi” at y rhestr o arfau ymosodol gwaharddedig yw na fyddai bellach yn bosibl gwerthu, mewnforio na meddu ar yr arfau hyn, hyd yn oed yn breifat. Byddai hyn yn golygu y gallai'r heddlu gyhuddo'r troseddwr o drosedd ac atafaelu arfau o'r fath, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu dal yn breifat.Ar hyn o bryd, pan fydd yr heddlu’n dod o hyd i eitem llafnog yng nghartref rhywun, dim ond os yw’r arf wedi’i wahardd neu os bernir ei fod yn dystiolaeth mewn ymchwiliad troseddol y gallant weithredu. Felly nid oes pwerau atafaelu ar gael i’r heddlu ar hyn o bryd, os ydynt yn dod o hyd i “gyllyll a machetes ar ddull sombi” neu “gyllyll a machetes ar ddull ymladd neu ffantasi” mewn eiddo preifat.

Rydym hefyd yn gwahodd safbwyntiau ynghylch a fyddai’n briodol cynnwys unrhyw amddiffyniadau[3], er mwyn caniatau meddiant o dan amgylchiadau neilltuol.Mae Adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol eisoes yn darparu amddiffyniadau ar gyfer arddangosfeydd mewn amgueddfeydd neu ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, ac ati. Fodd bynnag, yn amodol ar eithriadau presennol, nid ydym ar hyn o bryd yn gweld achos i’r math o gyllyll a ddangosir yn y delweddau isod fod yng nghartref a meddiant rhywun.

Nid yw'n bosibl darparu set gynhwysfawr o ddelweddau o'r mathau o “gyllyll a machetes ar ddull sombi” neu “gyllyll a machetes ar ddull ymladd neu ffantasi” yr ydym yn awgrymu y dylid eu gwahardd, ond isod mae sampl bach, a gymerwyd o chwiliad rhyngrwyd , o'r mathau o machetes a chyllyll sy'n cael eu hystyried:

Machete ‘ar ddull Zombie’ 20” / 50cm.

[3] Mae Adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 a Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988 yn cynnwys nifer o amddiffyniadau ar gyfer troseddau gweithgynhyrchu, gwerthu, llogi, cynnig ar werth neu logi, datgelu neu fod â meddiant at ddiben gwerthu neu logi, rhoi benthyg, rhoi neu fewnforio'r arfau a restrir yn y Gorchymyn. Mae rhai amddiffyniadau ychwanegol sy'n ymwneud â meddiant yn breifat a rhai amddiffyniadau ychwanegol sy'n berthnasol i gleddyfau crwm dros 50cm o hyd yn unig. Mae’r amddiffyniadau cyffredinol sy’n berthnasol i’r holl arfau rhestredig yn ymwneud â’r canlynol: swyddogaethau a gyflawnir ar ran y goron neu lu sy’n ymweld, sicrhau bod yr arf ar gael i, neu sy’n gweithredu neu’n gweithio ar ran amgueddfa neu oriel, ac i amgueddfeydd neu orielau roi benthyg neu logi eitemau i bersonau y maent yn credu y byddant ond yn eu defnyddio at ddibenion diwylliannol, artistig neu addysgol, perfformiadau theatrig ac ymarferion ar gyfer perfformiadau o'r fath, cynhyrchu ffilmiau, cynhyrchu rhaglenni teledu. Mae eitemau dros 100 oed wedi'u heithrio o'r ddeddfwriaeth. O ran meddiant yn breifat, mae amddiffyniadau ychwanegol ar gyfer: pwysigrwydd hanesyddol a meddu ar yr arf at ddibenion addysgol yn unig. Ar gyfer cleddyfau crwm dros 50cm o hyd mae amddiffyniadau penodol os gall y perchennog ddangos bod yr arf dan sylw wedi'i wneud cyn 1954 neu wedi'i wneud ar unrhyw adeg arall yn unol â dulliau traddodiadol o wneud cleddyfau â llaw. Mae amddiffyniadau’n bodoli ar gyfer ail-greu hanesyddol neu weithgareddau chwaraeon y cedwir yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar eu cyfer, am resymau crefyddol a’u defnyddio mewn seremonïau crefyddol gan gynnwys cyflwyno cleddyfau yn y ffydd Sicaidd



Machete ar ddull Anialwch 17.3” / 44cm.



Cyllell Hela Ffantasi 15” / 38cm.



Cyllell Ffantasi 10.5” / 26.5cm.



## Cynnig 2 - Pŵer i atafaelu a chadw/dinistrio rhai eitemau llafnog a gedwir yn breifat os yw'r heddlu mewn eiddo preifat yn gyfreithlon a bod ganddynt gred resymol y cânt eu defnyddio mewn troseddau difrifol.

Mae eisoes yn anghyfreithlon, o dan a139 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988, i gario cyllell yn gyhoeddus heb reswm da. Diwygiodd Deddf Arfau Ymosodol 1996 Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i gyflwyno trosedd o gael eitem â llafn neu bwynt neu arf ymosodol ar safle ysgol. Mae gan yr heddlu bwerau eisoes, felly, i atafaelu eitemau llafnog mewn mannau cyhoeddus ac ar dir ysgolion.

Diwygiodd Deddf Arfau Ymosodol 2019 Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i'w gwneud yn droseddi feddu yn breifat rai mathau o gyllyll ac arfau ymosodol, sydd wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988.Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi pwerau i'r heddlu atafaelu eitemau ymosodol gwaharddedig a ganfyddir yn breifat.

Rydym am sicrhau bod gan yr heddlu yr offer angenrheidiol i darfu ar droseddau cyllyll. Fodd bynnag,ar hyn o bryd, os bydd yr heddlu'n dod o hyd i machete neu unrhyw eitem

gyfreithiol arall gyda llafn yng nghartref rhywuna bod ganddynt sail resymol i gredu y bydd yr eitemau'n cael eu defnyddio mewn troseddau difrifol, ni allant atafaelu eitem o'r fath, oni bai bod angen hynny fel tystiolaeth mewn ymchwiliad troseddol.

Er enghraifft, gallai'r heddlu, yn ystod ymchwiliad ynghylch gwerthu cyffuriau, ddod ar draws sawl machete wedi'u cuddio o dan wely, ond efallai nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â'r drosedd benodol yr ymchwilir iddi. Gallai fod amgylchiadau yn ymwneud â'r unigolyn penodol sy'n peri i'r heddlu ddod i'r casgliad bod sail resymol dros gredu bod y machetes yn debygol o gael eu defnyddio mewn trosedd; er enghraifft, gallai fod gan yr unigolyn hanes o drais ac euogfarnau blaenorol am droseddau yn ymwneud â throseddau cyllyll. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, oni bai bod yr eitemau llafnog yn cael eu gwahardd, neu fod eu hangen fel tystiolaeth, ni all yr heddlu fforffedu'r eitemau hynny. Mae'n rhaid iddynt aros hyd nes y deuir o hyd i'r person gyda machete mewn man cyhoeddus cyn y gallant gymryd unrhyw gamau. Rydym yn credu os na all yr heddlu weithredu a chipio erthyglau llafnog yn y senario hwn a senarios tebyg, rydym yn colli cyfle gwerthfawr i darfu ar droseddau difrifol.

| **Astudiaeth Achos 1** |
|---|
| Fe wnaeth swyddogion heddlu a oedd yn ymchwilio i gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon wedi cael mynediad i gyfeiriad cartref person a oedd yn gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau Dosbarth A. Roedd ar ddedfryd ohiriedig am gyflenwi cyffuriau, roedd ganddo euogfarnau blaenorol am arfau a niwed corfforol difrifol (GBH) gan gynnwys bod â chyllell yn ei feddiant. Ar ôl chwilio ei ystafell wely, daeth swyddogion o hyd i machete 44cm. Cafodd ei gyhuddo o droseddau cyffuriau, ond doedd gan yr heddlu ddim pwerau i atafaelu'r gyllell. |

| **Astudiaeth Achos 2** |
|---|
| Fe wnaeth swyddogion heddlu gynnal chwiliad yng nghartref dyn a gafodd ei arestio am lofruddiaeth yn ymwneud ag arf tanio. Roedd gan y dyn gysylltiadau lluosog â gangiau lleol. Daethpwyd o hyd i swm o gyffuriau, ynghyd â dau machete. Er bod troseddau cyffuriau, nid oedd y machetes yn gysylltiedig â'r troseddau hyn ac felly nid oedd gan yr heddlu unrhyw bwerau i atafaelu'r eitemau. |

| **Astudiaeth Achos 3** |
|---|
| Fe gafodd yr heddlu eu galw i ddigwyddiad domestig. Nid oedd y dyn yn bresennol, ond roedd y fenyw wedi dod o hyd i gyffuriau a chyllyll ac roedd mewn ofn oherwydd hanes o ddigwyddiadau domestig yn y cartref. Cynhaliwyd chwiliad â chaniatâd ac yn ystod y chwiliad hwn daethpwyd o hyd i fag yn cynnwys cyllell fawr, yn ogystal â gweddillion canabis. Cyllell seremonïol o hyd tebyg i gleddyf oedd y gyllell. Doedd gan yr heddlu ddim pŵer i atafaelu'r gyllell. |

Er mwyn mynd i'r afael â'r senarios hyn, rydym yn cynnig cyflwyno pŵer newydd a fydd yn caniatáu i'r heddlu atafaelu a chadw neu ddinistrio rhai eitemau llafnog a gedwir yn breifat,

lle mae'r heddlu'n gyfreithlon mewn eiddo preifat a bod ganddynt sail resymol i gredu y bydd yr eitemau'n cael eu defnyddio mewn troseddau difrifol.

Byddai'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn gwyno bresennol yr heddlu, sy'n agored i unrhyw berson sydd wedi dioddef unrhyw fath o golled, difrod, gofid neu anghyfleustra o ganlyniad i'r mater y cwynir amdano. Hynny yw, gall person y mae ei eitemau llafnog wedi'u hatafaelu o ganlyniad i'r pŵer a gynigir, ac sy'n ystyried bod yr heddlu wedi cymhwyso'r pŵer yn anghywir, wneud cwyn yn uniongyrchol i'r heddlu perthnasol neu drwy Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ( IOPC), y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddo drosglwyddo manylion y gŵyn i'r heddlu perthnasol. Byddai'r digwyddiadau mwyaf difrifol yn cael eu cyfeirio at yr IOPC. Gallai heddluoedd hefyd gyfeirio digwyddiadau at yr IOPC os oedd ganddynt bryderon am ymddygiad eu swyddogion neu staff.

*Mae rhagor o wybodaeth am weithdrefn gŵynion yr heddlu ar gael yn:*

*Statutory guidance on the police complaints system (policeconduct.gov.uk)*

Rydym hefyd yn ystyried a ddylai fod llwybr barnwrol o wneud iawn er mwyn adennill eitem a atafaelwyd gan yr heddlu. Rydym yn gwahodd safbwyntiau gan ymatebwyr ar y pwynt hwn.

## Cynnig 3 – Cynyddu'r gosb uchaf i 2 flynedd am droseddau mewnforio, gweithgynhyrchu, gwerthu, a chyflenwi cyffredinol arfau gwaharddedig a pheryglus a gwerthu cyllyll i bersonau o dan 18 oed.

Mae'r rheswm pam y mae'r llywodraeth yn ystyried cynyddu'r cosbau yn driphlyg:

a. Rydym am gysoni'r troseddau hyn â'r drosedd o farchnata cyllyll fel rhai sy'n addas ar gyfer trais, sydd â chosb uchaf o 2 flynedd. Bydd y gosb hon yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd yn well.

b. Bydd cynyddu'r gosb hefyd yn rhoi mwy o amser i'r heddlu ymchwilio i'r drosedd honedig, heb bwysau terfyn amser presennol y drosedd ddiannod.

c. Bydd cynyddu'r gosb uchaf yn dod â'r drosedd o fewn Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) sy'n rhoi pwerau i fynd i mewn i unrhyw eiddo at ddibenion arestio person am drosedd ditiadwy.

Mae gan y troseddau mewnforio, gweithgynhyrchu, gwerthu a chyflenwi cyffredinol arfau ymosodol a pheryglus gwaharddedig (a141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 ac a1 o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 yn y drefn honno) a'r drosedd o werthu eitemau llafnog i bersonau o dan 18 oed (a141A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988) gosb uchaf o chwe mis o garchar, dirwy neu'r ddau yng Nghymru a Lloegr.

Ym 1997, cyflwynwyd trosedd newydd o farchnata cyllyll fel rhai addas ar gyfer trais ag uchafswm cosb o 2 flynedd yng Nghymru a Lloegr.Fodd bynnag, ni ddiwygiwyd y gosb uchaf am y troseddau o werthu arfau gwaharddedig a gwerthu cyllyll i rai dan 18 oed, er y

byddem yn dadlau eu bod mor ddifrifol â marchnata cyllyll yn anghyfreithlon. Rydym nawr yn ceisio barn ynghylch a ddylai gwerthu cyllyll i bobl o dan 18 oed neu werthu cyllyll gwaharddedig neu arfau ymosodol gael cosb uchaf o 2 flynedd.

Ar yr un pryd, mae prynu cyllyll o bell yn fwyfwy hawdd, sy'n dod â heriau newydd i'r heddlu.Mae gwerthu cyllyll ac arfau ymosodol ar-lein yn fwyfwy cyffredin gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, rhwydweithiau cymdeithasol a negeseua gwib. Gall ymchwilio i werthiant amheus a wneir ar-lein, yn arbennig pan fydd hyn yn digwydd rhwng unigolion preifat, fod yn gymhleth gan gymryd llawer o amser. Gallai cynyddu'r gosb uchaf i 2 flynedd helpu'r heddlu i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir ar hyn o bryd wrth ymchwilio i werthiannau cyllyll ac arfau ymosodol a gynhelir ar-lein.

Ar hyn o bryd, pan fo'r heddlu'n dymuno dwyn cyhuddiad mewn perthynas â gwerthu cyllyll yn anghyfreithlon i berson o dan 18 oed neu werthu arfau ymosodol gwaharddedig yn anghyfreithlon, rhaid iddynt wneud hynny o fewn 6 mis i gyflawni'r drosedd honedig, gan fod y troseddau'n 'ddiannod yn unig' ar hyn o bryd. Mae unrhyw ymchwiliad i werthiannau amheus gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a dulliau ar-lein eraill yn cymryd amser ac ni ellir ei wneud fel arfer yn y 6 mis sy'n ofynnol ar gyfer trosedd y gellir ei phrofi fel 'diannod yn unig'. Er enghraifft, mae'r heddlu wedi ein gwneud yn ymwybodol o ymchwiliadau sy'n ymwneud â gwerthu cyllyll yn anghyfreithlon i bobl o dan 18 oed a gynhaliwyd trwy grwpiau ap gwe a negeseua gwib, lle bu angen amser ychwanegol i ofyn am fynediad ac adalw data a gedwir ar ddyfeisiau preifat. Byddai cynyddu'r gosb uchaf i 2 flynedd yn gwneud y drosedd yn un y gellir ei phrofi 'y naill ffordd neu'r llall' a byddai'n rhoi mwy o amser i'r heddlu ymchwilio i'r drosedd honedig ac i wneud hynny pan fydd digon o dystiolaeth wedi'i chasglu, heb derfyn amser y drosedd ddiannod bresennol.

**Astudiaeth Achos 4**

Yn 2021, targedodd yr heddlu berchennog cyfrif snapchat yr adroddwyd ei fod yn ymwneud â gwerthu cyllyll i aelodau gang stryd. O ganlyniad i'r ymchwiliad i'r cyfrif snapchat, arestiwyd dau unigolyn. Roedd y gudd-wybodaeth yn dangos bod yr unigolion yn gwerthu cyllyll i bobl waeth beth fo'u hoedran. Gall ymchwiliad o'r math hwn gymryd nifer o wythnosau neu fisoedd yn seiliedig ar gynnwys y ffôn. Mae hyn yn debygol o gynnwys gwneud cais i'r rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol a data IP dilynol, a all gymryd hyd at 3 mis yn dibynnu ar y platfform a'r cyfnod amser.O ganlyniad, nid oedd yr heddlu yn gallu erlyn am y drosedd o werthu cyllyll i berson dan 18 oed.

> Daeth yr heddlu'n ymwybodol fod person o ddiddordeb wedi anfon neges snapchat o'i gyfrif yn cynnig cyllyll ar werth gyda llafnau 15 modfedd a 22 modfedd o hyd. Fe gafodd ei arestio yn y stryd mewn perthynas â throsedd Deddf Cyllyll a1. Cynhaliwyd chwiliad yn ei gartref a darganfuwyd 28 o gyllyll ar ddull hela a machete newydd sbon yn eu gwain wedi'u cuddio y tu ôl i'r bwrdd sgyrtin yn y gegin. Nid oedd gan yr heddlu fawr o amheuaeth bod y person hwn yn gwerthu cyllyll i blant fel arfer, ond er mwyn profi'r drosedd byddai'n rhaid iddynt gael archebion cynhyrchu banc, lawrlwythiadau ffôn, dadansoddiad cyfryngau cymdeithasol a data cyfathrebu gan amrywiol gwmnïau cyfryngau cymdeithasol. Ni ellid cwblhau'r ymholiadau o fewn y terfyn amser statudol o 6 mis. Nid oedd yr erlyniad Deddf Cyllyll a1 yn llwyddiannus a gwrthodwyd yr achos.

Yn ogystal, byddai cynyddu'r gosb uchaf i 2 flynedd yn dod â'r drosedd o fewn adran 17(1)(a) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) sy'n rhoi pwerau i gwnstabl heddlu fyndi mewn i unrhyw eiddo at y dibenion o arestio person am drosedd ditiadwy. Efallai y bydd angen hyn er mwyn ymchwilio i werthiannau amheus.

Felly, rydym yn ystyried a fyddai'n gymesur diwygio'r cosbau ar gyfer y troseddau hyn fel a ganlyn:

(a) ar gollfarn ddiannod, carcharu am gyfnod nad yw'n hwy na 12 mis neu ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu'r ddau;

(b) ar gollfarn ar dditiad, carcharu am gyfnod nad yw'n hwy na 2 flynedd, neu ddirwy, neu'r ddau.

Byddai hyn yn dod â'r troseddau hyn yn nes at y drosedd o farchnata cyllyll yn anghyfreithlon drwy awgrymu eu bod yn addas ar gyfer trais (a1 Deddf Cyllyll 1997), sy'n dwyn cosb uchaf o 2 flynedd yng Nghymru a Lloegr.

## Cynnig 4: A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin meddiant yn gyhoeddus o gyllyll gwaharddedig ac arfau ymosodol yn fwy difrifol.

Mae cario cyllell neu arf ymosodol yn gyhoeddus heb reswm da yn drosedd ddifrifol ag uchafswm cosb o 4 blynedd o garchar, a dylai unrhyw un sy'n gwneud hynny ddisgwyl wynebu dedfryd gadarn.Dylai'r rhai sy'n parhau i gario cyllyll yn gyhoeddus ddisgwyl isafswm dedfryd o garchar am eu hail drosedd a throseddau dilynol.

Ar hyn o bryd, nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â throseddau meddiant yn gwahaniaethu rhwng cyllyll safonol sy'n cael eu meddiannu'n gyhoeddus heb reswm da cyfreithlon neu arfau ymosodol achlysurol a'r mathau hynny o gyllyll neu arfau ymosodol sydd wedi'u gwahardd yn benodol mewn deddfwriaeth. Er bod dedfrydu mewn achosion unigol yn fater i'n llysoedd annibynnol, rydym yn ystyried a ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin y rhai sy'n cario cyllyll gwaharddedig ac arfau ymosodol yn gyhoeddus yn

fwy difrifol, o gymharu â'r rhai sy'n cario cyllyll ac arfau ymosodol heb eu gwahardd.Byddem yn croesawu barnau ar hyn.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o gyllyll gwaharddedig ac arfau ymosodol gwaharddedig o dan adran 141 o'r CJA ac adran 1 o Ddeddf Cyfyngiadau Arfau Ymosodol 1959.

## Cynnig 5: Trosedd meddiannu newydd o eitemau llafnog gyda'r bwriad o beryglu bywyd neu achosi ofn trais.

Mae adran 139 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (CJA) yn ei gwneud yn drosedd i gael eitem llafnog yn gyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon neu reswm da. Yn yr un modd, mae a.139A yn ei gwneud yn drosedd i gael eitem llafnog mewn safle addysg.

Mae Adran 1 y PCA yn ei gwneud yn drosedd i gael arf ymosodol yn gyhoeddus. Mae "arf ymosodol" yn golygu yn y cyd-destun hwn*unrhyw eitem a wneir neu a addasir i'w defnyddio i achosi anaf i'r person neu a fwriedir gan y person sydd ag ef gydag ef i'w ddefnyddio ganddo.*

Mae adran 139AA o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol ac a.1A o'r PCA yn ei gwneud yn drosedd i feddu ar eitem llafnog ac arf ymosodol yn y drefn honno, ac yna mynd ymlaen a bygwth person arallâ'r eitem neu'r arf yn y fath fodd fel bod person rhesymol a oedd yn agored i'r un bygythiad yn meddwl bod risg uniongyrchol o niwed corfforol.

Y gosb uchaf am y troseddau hyn yw 4 blynedd o garchar. Os yw'r person a geir yn euog o'r troseddau hyn yn 16 oed neu drosodd a bod ganddo o leiaf un gollfarn berthnasol flaenorol, rhaid i'r llys osod isafswm dedfryd o garchar o garchar am gyfnod o 6 mis o leiaf yn achos oedolion, neu gyfnod cadw a gorchymyn hyfforddi o 4 mis o leiaf yn achos 16-18 oed.

Rydym yn dymuno pontio'r bwlch rhwng meddu ar gyllell (neu arf ymosodol) mewn safle cyhoeddus neu addysg a'i ddefnyddio i fygwth neu niweidio unrhyw un. Rydym yn edrych i weld a ddylem fabwysiadu'r un ymagwedd â deddfwriaeth arfau tanio yn y maes hwn a chreu trosedd ar wahân o gael eitem llafnog neu arf ymosodol gyda'r bwriad o achosi anaf neu ofn trais, ag uchafswm cosb uwch nag a.1 o'r PCA neu a.139 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol.

Mae Adran 16 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 (Deddf Arfau Tanio) yn ei gwneud yn drosedd i feddu ar unrhyw arf tanio neu fwledi gyda'r bwriad o beryglu bywyd, neu achosi anaf difrifol i eiddo, neu i alluogi person arall i beryglu bywyd neu achosi anaf difrifol i eiddo. Mae Adran 16a yn ei gwneud yn drosedd bod ag unrhyw arf tanio neu arf tanio ffug yn eich meddiant gyda'r bwriad o achosi, neu alluogi person arall i achosi, ofn trais. Mae'r troseddau hyn yn brofadwy ar dditiad ac yn cynnwys uchafswm dedfryd o garchar am oes a 10 mlynedd o garchar yn y drefn honno.Mae'r troseddau hyn yn ychwanegol at y troseddau o dan a.1 (meddu, prynu neu gaffael arf tanio neu fwledi heb dystysgrif arf tanio) ac a.5 (meddu, prynu neu gaffael arfau neu fwledi gwaharddedig heb awdurdod) sy'n cario'r cosbau uchaf o 7 mlynedd a 10 mlynedd o garchar yn y drefn honno.

Mae deddfwriaeth arfau tanio wedi bod yn effeithiol wrth fynd i’r afael ag ystod eang o ymddygiadau troseddol sy’n ymwneud ag arfau tanio ac rydym yn awyddus i ofyn am farn pobl ar atgynhyrchu’r dull hwn ar gyfer cyllyll.

**Astudiaeth Achos 6**

Yn 2015, cynhaliwyd ymgyrch ar sail cudd-wybodaeth ar feic modur a oedd yn cael ei reidio gan ddau ddyn mewn ardal drefol. Fe wnaethon nhw geisio dianc ond cawsant eu hatal.  Ar ôl eu hymlid ar droed, cafodd y ddau eu cadw, eu harestio a'u chwilio. Canfuwyd bod y teithiwr â pheiriant pistol wedi'i lwytho yn ei feddiant. Cafwyd hyd i'r beiciwr gyda phistol wedi'i lwytho a chanfuwyd bod y ddau yn gwisgo balaclafas. Mae meddu ar yr arfau hyn yn anghyfreithlon yn drosedd ac yn wyneb amgylchiadau’r achos fe’u cyhuddwyd ac yn dilyn hynny fe'u cafwyd yn euog o fod ag arfau tanio yn eu meddiant gyda’r bwriad o beryglu bywyd, sydd ag uchafswm cosb uwch na meddiant anghyfreithlon o arfau gwaharddedig.

Rhan o’r dystiolaeth allweddol i sicrhau’r euogfarn hon oedd y ffaith bod yr arfau tanio wedi’u llwytho, eu bod yn gwisgo balaclafas ac roedd un o’r troseddwyr yn aelod uchel ei safle o gang troseddau trefniadol, a oedd mewn anghydfod hir a marwol gyda gang arall, a oedd wedi arwain at nifer o lofruddiaethau, a digwyddiadau saethu a thrywanu.

Mae reidio allan i diriogaeth y gelyn yn cario arfau, mewn ceir neu ar feiciau/mopeds gyda’r bwriad o ddod o hyd i aelodau o gang gwrthwynebol i ymosod arnynt yn gyffredin ac mae’r heddlu’n gweld amrywiadau o’r senario uchod yn cael eu hailadrodd ar draws ein cymunedau yn rheolaidd. Cafwyd yr aelod gang uchel ei statws o'r achos hwn yn euog a'i ddedfrydu i 14 mlynedd am droseddau arfau tanio.

Fodd bynnag, yn wahanol i Astudiaeth Achos 6, pe byddai hyn wedi golygu bod aelodau o gang yn reidio o amgylch ystâd gystadleuol ar foped, yn gwisgo balaclavas ac yn cario cyllyll neu machetes, yr unig drosedd a fyddai ar gael i’r heddlu fyddai meddu ar eitem llafnog neu arf ymosodol yn anghyfreithlon yn gyhoeddus. Byddai cyd-destun y drosedd yn annhebygol o fod yn ddigon i brofi cynllwyn i gyflawni trosedd. Fodd bynnag, mae dadl i’w gwneud bod aelodau gang sy’n gyrru beic modur o amgylch y strydoedd, yn cario machete neu unrhyw eitem llafnog arall yn anghyfreithlon yn debygol o fod â’r pwrpas o ddefnyddio’r machete neu’r eitem llafnog fel arf ac felly’n bwriadu peryglu bywyd neu achosi ofn trais.

**Astudiaeth Achos 7**

Fe wnaeth cudd-wybodaeth nodi grŵp mawr (15+) o unigolion mewn man cyhoeddus, y gwyddys ei fod yn cael ei fynychu gan aelodau gang yn postio ar gyfryngau cymdeithasol. Cafwyd deunydd gan yr heddlu a oedd yn dangos un aelod o’r grŵp yn datgelu cyllell yn ei fand gwasg ac yn defnyddio iaith wawdlyd tuag at gang arall. Yr unig drosedd oedd ar gael i'r heddlu oedd meddu ar gyllell neu arf ymosodol yn gyhoeddus, a chredai'r heddlu nad oedd yn adlewyrchu difrifoldeb yr ymddygiad troseddol.

Fodd bynnag, pe byddai'r unigolyn yn Astudiaeth Achos 7 wedi bod ag arf tanio yn ei feddiant, gallai fod wedi cael ei gyhuddo o feddiant gyda'r bwriad o beryglu bywyd, sydd ag uchafswm cosb uwch na meddiant anghyfreithlon o arf tanio.

Rydym felly'n ystyried a ddylid mabwysiadu'r un dull â deddfwriaeth arfau tanio a chyflwyno troseddau newydd o feddu ar eitemau llafnog neu arfau ymosodol gyda'r bwriad o beryglu bywyd, neu achosi anaf difrifol i eiddo, p'un a oes unrhyw anaf i berson neu eiddo wedi'i achosi neu peidio, neu gyda'r bwriad o achosi, neu alluogi person arall i achosi, ofn trais - ag uchafswm cosb uwch nag a.1 o'r PCA.

## Ymgynghoriad – Grwpiau ac Ymatebion

Mae copïau o'r papur ymgynghori hwn yn cael eu hanfon at gyrff proffesiynol a grwpiau cynrychioliadol yn Atodiad 2.

## Holiadur

**C1. A ydych yn cytuno y dylai'r <u>llywodraeth</u> gymryd camau pellach i fynd i'r afael â throseddau cyllyll, ac yn arbennig y defnydd o machetes a chyllyll mawr eraill mewn troseddau?**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

| |
|---|
| |

**Cynnig 1 - Gwahardd rhai mathau o gyllyll a machetes yr ydym yn awgrymu nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ymarferol ac sy'n ymddangos fel pe byddent wedi'u dylunio i edrych yn fygythiol ac yn addas ar gyfer ymladd.**

**C2. A ydych yn cytuno â'r cynnig?**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

**C3. O edrych ar y nodweddion cyffredin sy'n bresennol yn y cyllyll a'r machetes rydym yn cynnig eu gwahardd, a ydych yn cytuno y dylai unrhyw ddisgrifiad cyfreithiol gyfeirio at:**

**a) Yr erthygl yn cynnwys ymylon torri llyfn a danheddog**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

**b) Yr erthygl yn cynnwys mwy nag un twll**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

**c) Mae'r erthygl o hyd penodol**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

**d) A oes unrhyw nodweddion eraill y dylid eu cynnwys yn y disgrifiad cyfreithiol?**

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

**C4. O edrych ar hyd y mathau o gyllyll a machetes yr ydym yn bwriadu eu gwahardd, rydym yn gwahodd barn ynghylch a ddylai'r hyd lleiaf fod:**

- **a) 8”(20.32cm)**
- **b) 9” (22.86cm)**
- **c) 10” (25.4 cm)**
- **d) Unrhyw hyd arall?**

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

**C5. Hoffem ddeall a oes angen machetes a chyllyll awyr agored mawr yn y DU ar hyn o bryd ac i ba raddau.**

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

**Cynnig 2 – Pŵer i atafaelu a chadw/dinistrio rhai eitemau llafnog a gedwir yn breifat os yw’r heddlu mewn eiddo preifat yn gyfreithlon a bod ganddynt gred resymol y gellid eu defnyddio mewn troseddau difrifol.**

**C6. A ydych yn cytuno bod y pŵer newydd arfaethedig yn angenrheidiol ac yn gymesur?**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

**C7. Rydym yn gwahodd barnau ynghylch a ddylai'r pwerau fod yn berthnasol i unrhyw gyllell mewn eiddo preifat neu ddim ond i gyllyll o hyd penodol.**

a) **Unrhyw gyllell a gedwir mewn eiddo preifat**
b) **Cyllyll o hyd penodol**

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

| |
|---|
| |

**C8. Rydym yn gwahodd barnau gan ymatebwyr ynghylch a ddylai fod hawl i apelio i'r llysoedd er mwyn adennill eitem a atafaelwyd neu a ddylai'r llwybr unioni fod drwy broses gwyno'r heddlu yn unig.**

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

| |
|---|
| |

**Cynnig 3 – Cynyddu'r gosb uchaf am droseddau gwerthu ac ati arfau gwaharddedig a pheryglus a gwerthu cyllyll i bobl o dan 18 i 2 flynedd.**

**C9. A ydych yn credu bod y troseddau o werthu cyllyll i bobl o dan 18 oed a gwerthu arfau ymosodol gwaharddedig mor ddifrifol fel y dylent gael cosb uchaf o 2 flynedd?**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

| |
|---|
| |

**Cynnig 4: A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin meddiant cyhoeddus o gyllyll gwaharddedig ac arfau ymosodol yn fwy difrifol.**

**C10. A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin y rhai sy'n cario <u>cyllyll ac arfau ymosodol gwaharddedig</u> yn gyhoeddus yn fwy difrifol?**

| Dylai | Na ddylai |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

| |
|---|
| |

**Cynnig 5: Trosedd meddiant newydd o eitemau llafnog gyda'r bwriad o beryglu bywyd neu achosi ofn trais.**

**C11. A ydych yn cytuno â'r cynnig?**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Rhowch resymau (uchafswm 250 o eiriau)

| |
|---|
| |

# Busnes a Masnach

**Cynnig 1 - Gwahardd rhai mathau o gyllyll a machetes yr ydym yn awgrymu nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ymarferol ac sy'n ymddangos fel pe byddent wedi'u dylunio i edrych yn fygythiol ac yn addas ar gyfer ymladd.**

Wrth sôn am 'lafnau o fewn cwmpas', rydym yn golygu llafnau pigfain miniog sefydlog, gyda llafnau o leiaf 8" o hyd, sy'n cynnwys o leiaf dwy o'r nodweddion canlynol:

- Min torri plaen
- Min torri danheddog
- Mwy nag un twll yn y llafn

**C12. A yw eich sefydliad yn gweithgynhyrchwr, cyfanwerthwr neu fanwerthwr llafnau sydd o fewn cwmpas (gweler y disgrifiad uchod)? Ticiwch bob un sy'n berthnasol**

| Masnach | Ticiwch bob un sy'n berthnasol |
|---|---|
| Gweithgynhyrchwr | |
| Cyfanwerthwr | |
| Manwerthwr | |
| Dim un (neidio i C18 | |

**C13. Pa gyfuniad o nodweddion y mae'r llafnau rydych chi'n eu gwerthu yn eu bodloni?**

| Nodweddion llafn | Ticiwch bob un sy'n berthnasol |
|---|---|
| Min torri plaen a min torri danheddog | |
| Min torri plaen a mwy nag un twll yn y llafn | |

| | |
|---|---|
| Min torri danheddog a mwy nag un twll yn y llafn | |
| Min torri plaen, min torri danheddog, a mwy nag un twll yn y llafn | |

**C14. Yn ôl hyd y llafn, faint o lafnau o fewn cwmpas y mae eich sefydliad fel arfer yn eu stocio / eu dal ar unrhyw un adeg?**

a. **8” (20.33cm)**
b. **Rhwng 8” a 9” (20.33cm - 22.85cm)**
c. **Rhwng 9” a 10” (22.86cm - 25.39cm)**
d. **Mwy na 10” (>25.39cm)**

| |
|---|
| a).<br>b).<br>c).<br>d). |

**C15. Yn ôl hyd y llafn, beth yw pris cyfartalog (ac eithrio TAW) eich llafnau sydd o fewn cwmpas? Os ydych chi yn gyfanwerthwr ac yn fanwerthwr, rhowch brisiau cyfanwerthu a manwerthu.**

a. **8” (20.33cm)**
b. **Rhwng 8” a 9” (20.33cm - 22.85cm)**
c. **Rhwng 9” a 10” (22.86cm - 25.39cm)**
d. **Mwy na 10” (>25.39cm)**

| |
|---|
| a).<br>b).<br>c).<br>d). |

**C16. Yn ôl hyd y llafn, faint o lafnau o fewn cwmpas a werthodd eich sefydliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022?**

a. **8” (20.33cm)**
b. **Rhwng 8” a 9” (20.33cm - 22.85cm)**
c. **Rhwng 9” a 10” (22.86cm - 25.39cm)**
d. **Mwy na 10” (>25.39cm)**

a).
b).
c).
d).

**C17. Faint olafnau heb fod yn goginiol a werthodd eich sefydliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022?**

**C18. A oes unrhyw effeithiau busnes neu fasnach pellach ynghylch y cynnig hwn (y tu hwnt i'r rhai a nodir yn yr Asesiad Effaith) nad ydynt wedi'u hystyried?**

**Cynnig 3 - Cynyddu'r gosb uchaf am droseddau gwerthu arfau gwaharddedig a pheryglus a gwerthu cyllyll i bersonau o dan 18 i gosb uchaf o 2 flynedd.**

Drwy gynyddu uchafswm y ddedfryd ar gyfer y troseddau hyn i 2 flynedd, ni fyddai'r rhain bellach yn droseddau diannod yn unig. Ni fyddai'r heddlu bellach yn cael ei gyfyngu i 6 mis i ymchwilio i'r achosion hyn. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fanwerthwyr gadw tystiolaeth yn ymwneud â gwerthu cyllyll (e.e. dogfennaeth prawf oedran) am fwy na chwe mis ar ôl y pwynt gwerthu.

**C19. Beth fyddai costau gweinyddol y cynnig hwn (e.e. diogelu data ac arferion cadw cofnodion) i'ch busnes, os o gwbl?**

**C20. A oes unrhyw effeithiau busnes neu fasnach yn sgil y cynnig hwn (y tu hwnt i'r rhai a nodir yn yr Asesiad Effaith) nad ydynt wedi'u hystyried?**

**Cynigion eraill**

**Cynnig 2 – Pŵer i atafaelu a chadw/dinistrio eitemau llafnog penodol a gedwir yn breifat os yw'r heddlu mewn eiddo preifat yn gyfreithlon a bod ganddynt gred resymol y byddant yn cael eu defnyddio mewn troseddau difrifol.**

**Cynnig 4 – A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin meddiant yn gyhoeddus o gyllyll ac arfau ymosodol gwaharddedig yn fwy difrifol.**

**Cynnig 5 – Trosedd meddiant newydd o eitemau llafnog gyda'r bwriad o beryglu bywyd neu achosi ofn trais.**

**C21. Nid yw'r Asesiad Effaith yn nodi unrhyw effeithiau busnes na masnach sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn. A oes unrhyw effeithiau busnes neu fasnach nad ydynt wedi'u hystyried?**

| |
|---|
| |

**C22. A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn mewn perthynas â'r effaith ar nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran; anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol?**

| Oes | Nac oes |
|---|---|
| | |

Rhowch fanylion. (uchafswm 500 o eiriau)

| |
|---|
| |

# Amdanoch chi: gwybodaeth yr ymatebydd

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun.  Mae darparu'r wybodaeth hon yn wirfoddol.  Gallwn eich sicrhau y bydd ymatebion yn cael eu trin fel data personol gan y Swyddfa Gartref yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ar gadw gwybodaeth bersonol.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Enw llawn** | |
| 2 | **Enw'r cwmni/sefydliad**<br>(os yn berthnasol, atebwch gwestiynau sydd wedi'u hanelu at ddiwydiant a masnach) | |
| 3 | **Teitl swydd** neu swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ynddi (er enghraifft, aelod o'r cyhoedd neu gadeirydd corff cynrychioliadol) | |
| 4 | **Manylion cyswllt:**<br><br>**1) Cyfeiriad ebost**<br>**neu**<br>**2) Prif gyfeiriad gan gynnwys cod post**<br><br>Byddwn yn cydnabod derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad. | |
| Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch hwn: ☐ | | |

**DIOLCH AM EICH YMATEB**

## Manylion cyswllt a sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 06 **Mehefin 2023** -

- E-bostiwch i: machetes-knives-consultation@homeoffice.gov.uk

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gŵynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad uchod.

### Copïau ychwanegol

Gellir gweld yr ymgynghoriad ar-lein yn https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/knife-legislation/

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan machetes-knives-consultation@homeoffice.gov.uk

Cyhoeddi'r ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn tri mis i'r dyddiad cau. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn www.gov.uk

### Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

### Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (y rhain ynbennaf yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Swyddfa Gartref.

Bydd y Swyddfa Gartref yn prosesu'ch data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partïon.Wrth ymateb i'r ymgynghoriad o'r Alban, fodd bynnag, rydych yn cydsynio i'ch ymateb gael ei rannu â Llywodraeth yr Alban.

## Atodiad 1. Rhestr arfau ymosodol

**Cymru a Lloegr**

Mae Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988 yn berthnasol i'r arfau a ganlyn:

(a) dwrn haearn, hynny yw, band o fetel neu ddeunydd caled arall a wisgir ar un neu fwy o fysedd, ac a gynlluniwyd i achosi anaf, ac unrhyw arf sy'n cynnwys dwrn haearn;

(b) ffon gleddyf, hynny yw, ffon gerdded wag neu gansen yn cynnwys llafn y gellir ei ddefnyddio fel cleddyf;

(c) yr arf a elwir weithiau yn "grafanc llaw", sef band o fetel neu ddeunydd caled arall y mae nifer o bigau miniog yn ymwthio allan ohono, ac a wisgir o amgylch y llaw;

(d) yr arf a elwir weithiau yn "gyllell bwcl gwregys", sef bwcl sy'n ymgorffori neu'n cuddio cyllell;

(e) yr arf a elwir weithiau yn "ddagr gwthio", sef cyllell y mae ei handlen yn ffitio o fewn dwrn caeëdig ac mae'r llafn yn ymwthio allan rhwng dau fys;

(f) yr arf a elwir weithiau yn "kubotan gwag", sef cynhwysydd silindrog sy'n cynnwys nifer o bigau miniog;

(g) yr arf a elwir weithiau yn grafanc troed", sef bar o fetel neu ddeunydd caled arall y mae nifer o bigau miniog yn ymwthio allan ohono, ac a wisgir wedi'i strapio i'r troed;

(h) yr arf a elwir weithiau yn "shuriken", "shaken" neu "seren angau", sef plât caled anhyblyg sydd â thri phwynt pelydru miniog neu fwy ac wedi'i ddylunio i'w daflu;

(i) yr arf a elwir weithiau yn "balisong" neu "gyllell glöyn byw", sef llafn wedi'i amgáu gan ei handlen, sydd wedi'i dylunio i hollti i lawr y canol, heb weithrediad sbring neu fodd mecanyddol arall, i ddatgelu'r llafn;

(j) yr arf a elwir weithiau yn "bastwn telesgopig", sef pastwn sy'n ymestyn yn awtomatig trwy bwysau llaw a roddir ar fotwm, sbring neu ddyfais arall yn ei handlen neu wedi'i chysylltu â hi;

(k) yr arf a elwir weithiau'n "bibell chwythu" neu "wn chwythu", sef tiwb gwag y mae pelenni neu ddartiau ohono yn cael eu saethu trwy ddefnyddio anadl;

(l) yr arf a elwir weithiau yn "kusari gama", sef darn o raff, cortyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar un pen i gryman;

(m) yr arf a elwir weithiau yn "kyoketsu shoge", sef hyd rhaff, cortyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar un pen i gyllell fachog;

(n) yr arf a elwir weithiau yn "manrikigusari" neu "kusari", sef darn o raff, cortyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar bob pen i bwysyn caled neu afael llaw;

(o) cyllell gudd, sef unrhyw gyllell sydd â llafn cudd neu bwynt miniog cudd ac sydd wedi'i dylunio i ymddangos yn wrthrych bob dydd o'r math a gludir yn gyffredin ar y person neu mewn bag llaw, bag dogfennau neu fagiau llaw eraill ( megis crib, brwsh, offeryn ysgrifennu, taniwr sigareti, allwedd, minlliw neu ffôn)];

(p) cyllell lechwraidd, sef cyllell neu bigyn, sydd â llafn, neu bwynt miniog, wedi'i wneud o ddeunydd nad yw'n hawdd ei ganfod gan gyfarpar a ddefnyddir ar gyfer canfod metel ac nad yw wedi'i ddylunio at ddefnydd domestig nac i'w ddefnyddio mewn prosesu, paratoi neu fwyta bwyd neu fel tegan;

(q) pastwn syth, â handlen ar yr ochr neu glo ffrithiant (a elwir weithiau yn faton)];

(r) cleddyf â llafn crwm 50 centimetr neu fwy o hyd; ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, hyd y llafn fydd y pellter llinell syth o ben yr handlen i flaen y llafn]

(s) yr arf a elwir weithiau'n "gyllell sombi", "cyllell lladd sombi" neu "gyllell llofruddio sombi", sef llafn gyda--
(i) min torri;
(ii) min danheddog; a
(iii) delweddau neu eiriau (boed ar y llafn neu'r handlen) sy'n awgrymu ei fod i'w ddefnyddio at ddiben trais].

(t) yr arf a elwir weithiau yn "gyllell seiclon" neu "gyllell droellog" sef arf gyda—
(i) handlen,
(ii) llafn sydd â dwy ymyl torri neu fwy, a phob un ohonynt yn ffurfio helics, a
(iii) pwynt miniog ar ddiwedd y llafn.

Mae Deddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 yn berthnasol i'r arfau canlynol:

(a) unrhyw gyllell sydd â llafn sy'n agor yn awtomatig—

(i) o'r safle caeedig i'r safle sydd wedi'i agor yn llawn, neu

(ii) o safle sydd wedi'i agor yn rhannol i'r safle sydd wedi'i agor yn llawn,

drwy bwysau â llaw wedi'i osod ar fotwm, sbring neu ddyfais arall yn y gyllell neu sydd ynghlwm wrthi, ac a elwir weithiau'n "gyllell glec" neu'n "wn clec"; neu

(b) unrhyw gyllell sydd â llafn a ryddheir o'r handlen neu'r wain ohoni drwy rym disgyrchiant neu drwy ddefnyddio grym allgyrchol ac sydd, o'i rhyddhau, wedi'i chloi yn ei lle drwy gyfrwng botwm, sbring, lifer, neu ddyfais arall, a elwir weithiau yn "gyllell disgyrchiant",

# Atodiad 2. Grwpiau'r ymgynghoriad

Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
Ben Kinsella Trust
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Cymdeithas Arddwriaethol Prydain
Cyngor Chwaraeon Saethu Prydain
Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain
Consortiwm Manwerthu Prydain
Y Coleg Plismona
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Cynghrair Cefn Gwlad
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal
Gwasanaeth Erlyn y Goron
Gun Control Network
Gun Trade Association
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi
Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi
Heritage Arms Study Group
Historical Breechloading Small Arms Association
Cymdeithas yr Ynadon
Cymdeithas yr Amgueddfeydd
Cymdeithas Genedlaethol y Priswyr ac Arwerthwyr
Cymdeithas Genedlaethol yr Arwerthwyr
Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Cyngor Cyfarwyddwyr Cenedlaethol yr Amgueddfeydd
Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu - Arweinydd
Cymdeithas Reifflau Genedlaethol Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon
Royal Armouries
Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr
Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

**Gallai grwpiau eraill yr effeithir arnynt sydd â diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn gynnwys amgueddfeydd ac arddangosfeydd neu ffeiriau; arwerthwyr; delwyr hen bethau, ac unrhyw fusnesau a gwasanaethau eraill y mae eu gweithgareddau'n ymwneud â'r grwpiau yr effeithir arnynt.**

Nid yw'r rhestr hon wedi'i fwriadu i fod yn hollgynhwysfawr nac yn gyfyngedig a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn, neu farn ar y pwnc a drafodir yn y papur hwn.

## Egwyddorion yr ymgynghoriad

Mae’r egwyddorion y dylai adrannau’r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi’u nodi yn egwyddorion yr ymgynghoriad.

www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I wed y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn
public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk